

# Ar Dân!

## Ble yn y byd yn 2010?!



Canada  
Eleri James, Talybont  
Tracy Evans, Pontsian  
Tachwedd 2010



Yr Alban  
Caryl Haf,  
Llanddewi Brefi  
Mehefin 2010



Rali Ewropeaidd,  
Sweden  
Gwennan Davies,  
Llanwenog  
Lowri Jones,  
Caerwedros  
Gorffennaf 2010



Ffindir  
Emyr Lloyd,  
Tregaron  
Mehefin 2010



America  
Eirian Williams a  
Mererid Jones,  
Felinfach  
Medi-Hydrf 2010



Gogledd Iwerddon  
Trystan Jones,  
Caerwedros  
Ebrill 2010



Uganda  
Catrin Jones,  
Mydroilyn  
Medi 2010

Kenya  
Carwyn Jones,  
Mydroilyn  
Awst 2010

Seminar y Gwanwyn,  
Serbia  
Einir Ryder, Pontsian  
Mehefin 2010

Yn dilyn diwrnod briffio yng Nghanolfan CFFI Cymru ym mis Tachwedd, dweiswyd yr uchod i gynrychioli CFFI Cymru ac NFYFC ar deithiau tramor. Rhoddwyd lle i bob aelod o Geredigion a ymgeisiodd i fynd ar drip. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd a Bon Voyage! Rydym yn edrych ymlaen at gael hanesion y tripiâu!



# Eisteddfod Cymru

Eleni, Eryri oedd yn cynnal Eisteddfod Cymru, felly aeth llu o aelodau Ceredigion lan i Landudno, ac nid oedd y daith yn ofer, gan i nifer o wobrau ddod yn ôl Geredigion, gan gynnwys y gadair i Fydroilyn gyda Catrin Jones. Ar ddiwedd llond diwrnod o gystadlu brwd daeth Ceredigion yn ail.

## Unawd 16 ac iau

2il Elen Thomas, Talybont

## Unawd Offerynnol

2il Huw Llyr Evans, Llanddeiniol

## Llefaru 16 ac iau

1af Elliw Mair Dafydd, Bro'r Dderi

## Llefaru 21 ac iau

3ydd Enfys Hatcher, Llanwenog

## Llefaru 26 ac iau

3ydd Sara Downes, Llangeitho

## Adroddiad Digri

1af Sam Jones, Tregaron

## Meim i Gerddoriaeth

2il Penparc

## Sgets

3ydd Talybont

## Stori a Sain

2il Aled Llyr Thomas & Geraint Jenkins, Talybont

## Cân Bop

1af Mydroilyn

## Deuawd Doniol

3ydd Einir Ryder & Teleri Morris, Pontsian

## Cerdd

1af Catrin Jones, Mydroilyn

## Cyfansoddi Alaw

2il Caryl Griffiths, Ceredigion

## Cywaith Clwb

2il Caerwedros

## Poster Hysbysebu 16 ac iau

1af Catrin Howells, Caerwedros

## Cyfansoddi darn Llefaru

2il Sioned James, Penparc

## Rhaglen Clwb

2il Cerys Jones, Llanwenog



## Gymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc



Cynhaliwyd Cymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc yng Nghapel y Groes, Llanwnnen, nos Sul y 6ed o Ragfyr 2009. Arweinydd y nos oedd Elonwy Davies, Llanybydder a'r organydd oedd Nans Davies, Brynteg. Braff oedd gweld y capel yn orlawn a chafwyd canu bendigedig. Nicola Davies, Cribyn, cyn-aelod o glwb Felinfach oedd y llywydd a chafwyd ganddi araith arbennig a rhodd hael. Ychwanegwyd at y noson gydag eitemau'r artistiaid. Cyflwynwyd sgets ddifyr gan Glwb Felinfach, cafwyd cyflwyniad llafar graenus gan Glwb Llanwenog ac eitem ar y delyn a chan swynol gan Gwawr Jones, Drefach. Cymerwyd rhan hefyd gan Swyddogion y Sir trwy ganu'r gân boblogaidd 'Haleliwia'. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parchedig Cen Llwyd. Mwynhaodd bawb banded a bwyd cyn troi am adref. Bu'n noson hwyliog a chofiadwy iawn. Cyflwynodd Manon ac Emyr sic o £657 o bunnoedd, sef elw'r noson i Gangen Diabetes, Llanybydder. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

# Ffair Aeaf

Coeden Nadolig  
Morfudd Lewis ac  
Eleri James—3ydd

Barnu Carcas Ŵyn  
Carwyn Jones 1af dan 21  
Tim yn 3ydd

Barnu Ŵyn Cigyddion  
Menna Davies 3ydd dan 26  
Tim yn 2il

Barnu Biff Cigyddion  
Tim yn 3ydd

Barnu Stoc  
Ceredigion yn 2il

Llongyfarchiadau i Menna Davies CFFI Di-hewyd ar ddod yn fudduglrol yng nghystadleuaeth Stocmon Hyn y flwyddyn yn yr 'English Winter Fair'.

Llongyfarchiadau mawr i Emyr Harries, CFFI Llanddeiniol ar ennill y 3ydd wobwr yng Nghynllun Menter CFFI Cymru Natwest. Yn ogystal derbyniodd Anwen Hughes o CFFI Talybont gamoliaeth uchel am ei chynllun busnes.



## Trimio Wyn

Enillydd y gystadleuaeth trimio ŵyn yng Ngheredigion oedd Sian Downes, Llangeitho, ac aeth ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Ffair Aeaf.

**Beth yn union yw Trimio ŵyn?** Mae trimio yn amlygu gwendidau a chryfderau'r oen, a bydd pobl yn trimio'r oen cyn ei werthu neu cyn mynd i sioe.

**Pam fod diddordeb gennyf ti yn y gystadleuaeth?** Roedd fy Nhadcu arfer dangos Suffolks, a chyn cystadlu roedd yn trimio'r ŵyn. Rwy' wedi dilyn yn ôl ei draed, ond efo brîd llawer gwell! Mae trimio ŵyn yn grefft, ac rwy'n mwynhau eu paratoi ar gyfer y sioeau dros yr haf.

**Pa fath o offer wyt ti'n ei ddefnyddio?** Rwy'n defnyddio crib cardiwr, gweulliau, pater a stand sydd yn dala pen yr oen yn digon uchel ac yn gyfforddus i mi.

**Faint o amser mae'n cymryd i baratoi un oen?** Cawsom awr a hanner i baratoi, ac roedd hynny yn ddigon o amser.

**Pwy sydd wedi bod yn dy ddysgu?**

John Green.

**Pob Lwc i ti yn y dyfodol!**



### Gwisg y Sir

Erbyn hyn mae gan y CFFI Ceredigion wisg swyddogol yn cynnwys;

Crys Polo	£14
Hoody	£18
Cot Law	£20
Fleece	£20
Crys Rygbi	£25

Os oes gennych ddidordeb i'w prynu, cysylltwch â Mared yn y Swyddfa.

### Pwyllgor Dathlu' r Sir Y Diweddara!

Cynhaliwyd cyfarfod yn Nhafarn y Vale ar ddechrau mis Rhagfyr ac etholwyd swyddogion ar gyfer y pwyllgor.

Rydym yn chwilio am unrhyw ddeunydd megis DVDs, Fideos a lluniau o unrhyw gyfnod dros y 70 mlynedd er mwyn medru gwneud cofnod ar gyfer cyfnod y dathlu. Os oes gennych unrhyw ddeunydd a wnewch chi gysylltu â Mared yn y Swyddfa. Bydd y cyfarfod nesaf yn Nhafarn y Vale, Felinfach, nos Sul yr 28ain o Chwefror am 7.30. Croeso i bawb!


# Eisteddfod Ceredigion



**Penblwydd Hapus**  
**C.Ff.I. Tregaron yn 60 oed!**




# Dawns y Frenhines



Yn ôl yr arfer, mynychodd nifer o aelodau Dawnsfeydd y Goron Driphlyg yn Ninbych y Pysgod, Abertawe a Phontrhydfendigaid. Braff iawn oedd gweld pawb wedi gwneud ymdrech i wisgo eu ballgowns a'u bow-teis!



# Cinio Nadolig y Swyddogion



Gydag ambell i angel a sawl sion corn, daeth swyddogion y sir ynghyd i fwynhau yn ysbryd y Nadolig.



# Canlyniadau

## Pontsian yn Pencampwyr y Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Yn dilyn gohirio'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn gynharach yn y mis oherwydd yr eira cynhaliwyd diwrnod o gystadleuthau siarad cyhoeddus Cymraeg, dydd Sul y 24ain o Ionawr. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda dros 170 o aelodau yn dangos eu doniau wrth siarad. Pontsian ddaeth i'r brig ar ddiwedd y cystadlu gyda Llanwenog yn ail.



Dyma'r canlyn-  
iadau:-  
**Dan  
14:-**

Bethan Green, Caerweddros enillodd y cadeirydd a'r darlennydd gorau dan 14 oed.

Tîm:- Caerweddros sef Bethan Green, Meilir Ioan a Caryl Griffiths.

**Dan 16:-** Cadeirydd gorau:- Lauren Jones, Llanwenog; Siaradwr gorau:- Rhodri Morris, Pontsian A; Diolchydd: Mair Davies, Caerweddros;

Tîm - 1af Pontsian A sef Gwenllian Thomas, Rhodri Morris a Guto Thomas.

**Dan 21** (Seiat Holi) :- Cadeirydd gorau:- Enfys Hatcher, Llanwenog; Siaradwr gorau: Catrin Haf Jones, Mydroilyn; Tîm - 1af Pontsian sef Lisa Jones, Catrin Jones, Dion Davies ac Elen Thomas

**Dan 26** (Siarad ar ôl cinio) :- Cadeirydd gorau:- Einir Ryder, Pontsian A; Siaradwr gorau:- Wyn Thomas, Pontsian B;

Tîm – 1af Llanwenog A sef Lyn Jenkins, Helen Howells a Cerys Jones.

Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli C.F.F.I. Ceredigion yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru a fydd yn cymryd lle yn Ysgol Tywyn, Aberdyfi ar Chwefror 27ain 2010. Pob hwyl i chi gyd.

## Cwis Iau y Sir

Llongyfarchiadu i glwb Llangeitho ar ddod yn fuddugol yng nghystadlaethau Cwis Iau y Sir.



Pob lwc i bawb yn y gystadleuaeth ddrama yr wythnos hon ac i'r clwb buddugol ar lefel Cymru ar 26ain o Chwefror.

## Cwis y Sir

Cynhaliwyd cwis y sir, nos Iau y 26ain o Dachwedd. Gosodwyd y cwestiynau gan Glyn Davies, Llywydd y Sir. Wedi tipyn o grafu pen ar hyd a lled y sir, Clwb Felinfach ddaeth yn gyntaf yn yr adran Gyffredinol a Chlwb Troedraur enillodd yr adran amaethyddol. Felinfach ddaeth i'r brig hefyd ar draws y ddwy adran. Yn y llun gwelir Mererid Jones, Cadeirydd Felinfach a Llion ##, Cadeirydd Troedraur gyda'r cwpanau a enillodd y clybiau.



**Premier**  
D.O. & D.W. Jones  
a great deal more  
from your local store

**Masnachdy  
Felinfach**

POST OFFICE

Gwerthwyr Papur Newydd,  
Cardiau cyfarch,  
Loteri Cenedlaethol,  
Ffrwythau & Llysiau,  
All-Drwydded,  
Siop Fwyd

(01570) 470321

**Llaethdy'r Dolau**  
**Llanybydder, Sir Gaerfyrddin**  
Cyfanwerthwyr llaeth ffres sy'n cael ei  
ddosbarthu drwy ardaloedd Gorllewin  
Cymru. Darparwyr llaeth cyflawn, han-  
ner sgim a sgim. Hefyd hufen ffres a  
sudd ffrwythau.  
Cysylltwch â ni; Ffôn: 01570 480235  
Cyfeiriad e bost : [office@highmead-  
dairies.co.uk](mailto:office@highmead-dairies.co.uk)  
Neu ewch i'n gwefan:  
[www.highmead-dairies.co.uk](http://www.highmead-dairies.co.uk)

**YARA** **W.D. Lewis** **BOCM PAULS**  
*a'i Fab*  
Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants

**Melin Mark Lane Mill**  
**LAMPETER**  
**Ceredigion SA48 7AG**  
**Ffon :- ( 01570 ) 422540**  
**[www.wdlewis.co.uk](http://www.wdlewis.co.uk)**

## DYDDIADAU I'W COFIO

### Chwefror

**26/27** Penwythnos Cymraeg Cymru

### Mawrth

**3** Hyfforddiant Barnu Stoc

**5** Dawns Dewis Swyddogion

**5/6** Penwythnos Saesneg Cymru

**10** Hyfforddiant Barnu Stoc

**17** Pwyllgor Gwaith

**21** Cystadleuaeth Effeithlonrwydd  
a Diogelwch

**27** Diwrnod Maes y Sir

### Ebrill

**4** Diwrnod Hwylus Sul y Pasg

**9** Gala Nofio'r Sir

**10** Diwrnod Maes CFFI Cymru

**16** Cino'r Cadeirydd

**21** Pwyllgor Gwaith

**23-25** Cyffnod Blynnyddol NFYFC

### Mai

**12** Pwyllgor Gwaith

**22** Rali'r Sir Llanddeiniol

**31** Eisteddfod yr Urdd

### Mehafin

**11** Rygbi 7 bob ochr

**15** Pwyllgor Gwaith

**18** Tynnu'r Gelyn

**19** Chwaraeon y Sir

**26** Cyngor ac Is-bwyllgorau Cymru

**30** It's a Knockout Fforwm

### Gorffennaf

**14** Pwyllgor Gwaith

**19-23** Sioe Frenhinol Cymru

## Tîm Golygu

Hedydd Davies  
Mererid Jones  
Manon Richards  
Einir Ryder  
Emyr Evans  
Eleri James



Dyma ein rhifyn olaf ni fel golygyddion Ar Ddan. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu lluniau neu adroddiadau yn ystod y flwyddyn. Diolch hefyd i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol sy'n sicrhau parhad i'r cylchgrawn.

Dymuniadau gorau i'r swyddogion nesaf a fydd yn cymryd at y gwaith o gynhyrchu a golygu'r cylchgrawn. Os oes gennych ddeunydd neu hysbysebion ar gyfer y rhifyn nesaf danfonwch at:- [ardan@live.co.uk](mailto:ardan@live.co.uk) Cofiwch barhau i ddarllen Ar Ddan!